Strategaeth Diogelwch Ffyrdd

Diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru – Stategaeth diogelwch ffyrdd Newydd

Dyddiad cyhoeddi: 8 Tachwedd 2023
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Ionawr 2024

Trosolwg
Rydym am glywed eich barn am ddiogelwch ein ffyrdd a diogelwch ar ein ffyrdd, er mwyn ein helpu i ddeall eich blaenoriaethau a beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel i bawb.

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ochr yn ochr â'n trafodaethau â rhanddeiliaid sy'n gweithio o fewn cwmpas diogelwch ar y ffyrdd, arolwg sampl ar hap o boblogaeth Cymru a gweithdai sy'n cynnwys grwpiau ymylol, i greu Strategaeth newydd ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru.

Cyflwyniad
Rydym o'r farn bod marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd yn foesol annerbyniol, ac felly rydym wedi ymrwymo i'w dileu (gelwir hyn yn "Weledigaeth Sero"). Rydym yn teimlo y dylai pawb chwarae eu rhan i weithio tuag at yr ymrwymiad hwnnw.

Mae hyn yn golygu dull newydd, mwy rhagweithiol o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd sydd â'r nod o ddileu risgiau lle bo hynny'n bosibl a gwneud ein cymunedau'n lleoedd mwy diogel, iach a chynaliadwy.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu ac yn annog ein partneriaid i wneud gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd, annog y defnydd o derfynau cyflymder diogel yn ddibynnol ar fath a swyddogaeth y ffordd, annog newid ymddygiad, dylanwadu ar ddiogelwch cerbydau, annog ymateb effeithiol gan y gwasanaethau brys ar ôl damwain, a chymorth styrlon i ddioddefwyr.

YN Y RHIFYN HWN:

Strategaeth Diogelwch Ffyrdd
Gweld a chael eich gweld!
Sir Fynwy: Teithio Llesol
Datganiad Ysgrifenedig: 20mya
E-feiciau
Gynllun Cydnabyddiaeth a Enillwyd DVSA
Beiciau modur

Gweld a chael eich gweld!

Mae cyfnodau hirach o dywyllwch yn y bore a gyda'r nos, ochr yn ochr ag amodau tywydd gwaeth, yn golygu y gall y risgiau o fod yn rhan o wrthdrawiad traffig ffyrdd gynyddu.

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn cynghori defnyddwyr y ffyrdd fod angen paratoi a chymryd gofal ychwanegol mewn amodau tywyllach. Yn y tywyllwch, mae'n bwysicach byth bod gyrwyr yn chwilio am bob defnyddiwr ffordd sy'n agored i niwed, a ddylai hefyd ystyried pa mor hawdd i'w gweld ydyn nhw.

Mae'r terfyn cyflymder 20mya diofyn newydd mewn ardaloedd adeiledig ledled Cymru yn golygu bod gan yrwyr fwy o amser i adnabod peryglon ac i yrru'n briodol yn ymyl pobl eraill. Yn anffodus, fodd bynnag, allan ni ddim cymryd yn ganiataol bod gyrwyr yn cydymffurfio â'r gofynion. Mae gyrwyr sy'n troseddu yn dal i'w cael ac mae angen i bob un ohonom sy'n defnyddio'r ffyrdd aros yn effro i ymddygiad gyrru gwael ac anghyfreithlon er mwyn lleihau ein risg o gael ein hanafu.

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, "Ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, rhaid i yrwyr gadw at gyfraith traffig ffyrdd bob amser a dilyn y rheolau a'r canllawiau yn Rheolau'r Ffordd Fawr.

"Mewn tywydd tywyll a newidiol mae'n hanfodol bod gyrwyr yn gallu gweld defnyddwyr ffyrdd bregus ac yn gallu arafu a dod â'u cerbyd i stop yn ddiogel. Rydyn ni'n annog gyrwyr i wirio bod eu cerbyd mewn cyflwr sy'n addas i'r ffordd. Rhaid i bob teiar fod heb eu difrodi, gyda digon o afael a bod wedi'u chwythu i'r pwysau cywir.

"Rhaid i bob golau fod yn lân ac yn gweithio'n iawn, gyda'r botel hylif golchi'n llaw i gadw'r ffenestr flaen yn glir; mae'r gallu i weld pobman heb rwystr yn hanfodol ar gyfer gyrru'n ddiogel ac amddiffyn defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed.

"Gall cerddwyr a beicwyr gynyddu eu hamlygrwydd yn hawdd trwy wisgo lliwiau llachar yn ystod y dydd, ac yn y tywyllwch dewis ategolion adlewyrchol, esgidiau neu ddillad a all gael eu gweld yng ngoleuadau cerbydau. Mae croesi'r ffordd wrth fannau croesi pwrpasol pryd bynnag y bo modd bob amser yn opsiwn mwy diogel, yn enwedig wrth gerdded neu reidio yn y tywyllwch."

Atgoffir beicwyr fod rhaid cael golau blaen gwyn a golau cefn coch ar eu beic wrth reidio, tra gall cerddwyr wneud defnydd da o dorts safonol neu dorts ffôn symudol.

Elwa'n fwy o'ch taith pan fyddwch yn dewis teithio llesol yn Sir Fynwy

Mae Cyngor Sir Fynwy yn dathlu 10 mlynedd ers lansio'r Ddeddf Teithio Llesol yng Nghymru.

Dywedodd y Cyng. Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd: "Hoffwn ddiolch i holl breswylwyr Sir Fynwy sydd yn teithio'n llesol, trwy gerdded neu'n defnyddio dulliau teithio ag olwynion ar gyfer teithiau hanfodol megis cymudo i'r gwaith.

"Gall pobl o bob oed a gallu deithio ag olwynion neu gerdded, ac mae pob taith y gallwn ei gwneud heb y car yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Er mwyn dysgu mwy am brosiectau teithio llesol ewch i monlife.co.uk/outdoor/active-travel

Datganiad Ysgrifenedig: Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Cefnogi awdurdodau priffyrdd wrth weithredu'r terfyn 20mya

Ddydd Mawrth gwnes i, ynghyd â'r Gweinidog Newid Hinsawdd, gyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol, aelodau cabinet a swyddogion trafnidiaeth o bob rhan o Gymru i drafod gweithredu'r terfyn 20mya yn eu hardaloedd.

Roedd hyn yn gyfle i bwyso a mesur y broses weithredu ar draws y wlad, i rannu arferion da, ac i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Cofnodais hefyd fy niolch enfawr i'n partneriaid ym maes llywodraeth leol am eu cefnogaeth barhaus.

Maent wedi cyflawni tasg anferthol: penllanw blynyddoedd o ddadlau a thrafodaeth fanwl, cynlluniau treialu helaeth, a misoedd lawer o waith paratoi manwl cyn ei gyflwyno ledled Cymru ar 17 Medi.

Mae hwn yn newid pwysig, a bydd yn cymryd peth amser i bawb gyfarwyddo â'r terfyn newydd.

Yn sicr mae wedi bod yn her logistaidd. Roedd newid arwyddion ffyrdd ar y raddfa hon ac o fewn cyfnod mor fyr yn dasg na welwyd ei thebyg o'r blaen. Yn anffodus roedd y broses honno hyd yn oed yn fwy anodd yn sgil fandaliaeth annerbyniol ac anghyfreithlon o arwyddion ffyrdd mewn rhai mannau.

Ni fydd y gweithredu hyn yn arwain at newid i'r polisi a'r terfyn cyflymder diofyn ond mae wedi golygu bod adnoddau prin ac amser swyddogion yn cael eu gwastraffu ar adeg pan fo cynghorau'n wynebu amryfal bwysau.

Er gwaethaf galwadau gan rai pobl mae neges awdurdodau'r priffyrdd yng Nghymru yn gwbl glir – rydym eisiau caniatáu amser i bobl gyfarwyddo â'r terfynau newydd cyn i'r canllawiau ar eithriadau gael eu diwygio.

Byddwn yn parchu'r adborth yma ac rydym wedi cytuno i gydweithio ag awdurdodau priffyrdd lleol er mwyn ystyried y ffordd orau o weithredu'r canllawiau ar eithriadau mewn gwahanol rannau o Gymru. Byddwn hefyd yn ystyried sut rydym yn ymdrin â ffyrdd sydd ar y trothwy rhwng 20mya a 30mya, a hefyd yn cefnogi cynghorau os ydynt yn awyddus i ymdrin ag anomaleddau amlwg ar fyrder.

Bydd y gwaith hwn, ynghyd â'n trafodaeth ehangach gydag awdurdodau lleol ynghylch gweithredu'r terfyn 20mya, yn ein helpu i wybod a oes angen rhagor o eglurhad er mwyn annog rhagor o gysondeb ar draws Cymru. Byddwn yn anelu at rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu ynghyd ag unrhyw adborth erbyn diwedd y flwyddyn.

Hoffwn hefyd ddiolch i Phil Jones am ei gefnogaeth barhaus – ac i'r panel arbenigwyr y mae wedi'i arwain am fod mor barod i gynnig cyngor a chefnogaeth i awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod hwn ar ôl cyflwyno'r newid.

Yn olaf, rydym wedi cytuno i fod yn hyblyg o ran y cyllid sydd ar gael i gynghorau yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf fel bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i barhau i gyflwyno'r newid pwysig hwn.

Pobl wedi’u harestio a beiciau trydan wedi’u hadfer mewn ymgyrch i gadw strydoedd canol dinas Caerdydd yn ddiogel

Cafodd un ar ddeg o feiciau trydan eu hadfer ac wyth person eu harestio yng nghanol dinas Caerdydd ddydd Iau, 5 Hydref, fel rhan o ymgyrch ar y cyd sy'n targedu pobl sy'n reidio beiciau wedi'u haddasu sy'n gallu cyrraedd cyflymderau o fwy na 40mya.

Cymerodd Tîm Wardeiniaid Canol Dinas Cyngor Caerdydd ran yn yr ymgyrch a welodd Heddlu De Cymru yn arestio dau, a Gwasanaeth Fisâu a Mewnfudo'r DU yn arestio chwe pherson.

Dywedodd llefarydd ar ran Cyngor Caerdydd: "Fel cyngor, rydym yn annog pobl i feicio ond yr hyn na allwn ei dderbyn yw pobl yn gyrru beiciau trydan addasedig anghyfreithlon mewn ardaloedd i gerddwyr gan beryglu cerddwyr.

"Gallai pob cerbyd a adferwyd gan Heddlu De Cymru gyrraedd cyflymderau o hyd at a thros 40mya, a dim ond breciau ar gyfer beic pedal arferol a oedd wedi'u gosod. Mae'n ymddygiad hunanol annerbyniol ac mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â hyn.

"Yn ystod yr ymgyrch, mae'n debyg i un o'n wardeiniaid ddioddef ymosodiad gan feiciwr sydd wedi'i gyhuddo o ymosod, cario eitem â llafn a meddu ar gyffur Dosbarth A gyda'r bwriad o ddosbarthu.Wrth symud ymlaen gallwn weld bod digwyddiadau fel hyn ond yn atgyfnerthu'r angen i'n Tîm Wardeiniaid Canol y Ddinas wisgo camerâu corff a byddaf yn trafod hyn gyda'r swyddogion perthnasol i awdurdodi eu defnydd."

Nid yw beiciau trydan ag allbwn uchaf o dros 250 Watt, sbardun llaw, neu sy'n gallu mynd yn gynt na 15.5mya wedi'u dosbarthu fel beic pedal, ond yn hytrach moped neu feic modur, a rhaid eu cofrestru gyda'r DVLA, eu hyswirio a'u trethu a rhaid i'r gyrrwr wisgo helmed.

Dim ond ar dir preifat y gellir gyrru'r cerbydau hyn ac nid ar y briffordd gyhoeddus gan eu bod yn berygl i gerddwyr, yn enwedig rhai ag anableddau.

Dilynodd yr ymgyrch adroddiadau ar draws y DU o bobl yn cael eu taro gan y mathau hyn o gerbydau a/neu yn osgoi hynny o drwch blewyn.

Mae'r Tîm Wardeiniaid Canol y Ddinas newydd, a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, yn patrolio canol y ddinas ac yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Brys a darparwyd gwasanaeth y Cyngor i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol i gadw strydoedd Caerdydd yn ddiogel i bawb eu mwynhau.

Dywedodd y Sarjant Gareth Davies, o Heddlu De Cymru: "Er nad yw'n anghyfreithlon cael e-feic sydd â chymorth trydanol neu allbwn pŵer sy'n fwy na 15 mya a 250W, ni allwch ei reidio ar y briffordd gyhoeddus fel beic rheolaidd heb ei gofrestru a'i yswirio fel moped.

"Mae hyn yn cynnwys hawliau oddi ar y ffordd ac ar y ffordd, fel cilffyrdd a llwybrau ceffylau. Dim ond gyda chaniatâd y tirfeddiannwr y gallwch reidio beiciau trydan heb eu cofrestru a heb yswiriant ar dir preifat.

"Yn ystod yr ymgyrch ddydd Iau cafodd dau berson, a gafodd eu stopio i ddechrau mewn perthynas â beiciau pedal sydd wedi'u haddasu'n anghyfreithlon, eu harestio ar amheuaeth o droseddau delio cyffuriau. Atafaelwyd cyffuriau a chyllell fawr.

"Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid fel hyn i helpu i gadw canol dinas Caerdydd yn ddiogel."

Achrediad DVSA i gerbydau Cyngor Sir Powys

Mae Cyngor Sir Powys bellach yn aelod achrededig o Gynllun Cydnabyddiaeth a Enillwyd DVSA. Mae'r cynllun gwirfoddol, sy'n cael ei weinyddu gan Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (yr Asiantaeth) yn ffordd i weithredwyr cerbydau, fel gwasanaeth fflyd y cyngor, brofi bod y sefydliad yn bodloni safonau diogelwch gyrwyr a cherbydau.

Fel aelod achrededig, mae gan y cyngor hen hanes o gydymffurfiaeth a chadw at ofynion rheoleiddiol wrth redeg fflyd o gerbydau a bydd yn rhannu gwybodaeth perfformiad yn rheolaidd gyda'r Asiantaeth.

Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru, a dim ond y trydydd yn y DU, i gyflawni'r safonau gofynnol i gael ei dderbyn i Gynllun Cydnabyddiaeth a Enillwyd yr Asiantaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Jackie Charlton, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach: "Mae'r nifer o gerbydau y mae ein fflyd yn eu rheoli a'u cynnal a chadw ledled y sir yn syfrdanol. Mae cael ein derbyn i gynllun yr Asiantaeth yn profi, er gwaetha'r prysurdeb, ein bod ni'n ymroddedig i sicrhau ein bod ni bob amser yn cynnal a chadw safon uchel o ddiogelwch i'r gyrrwr a'r cerbyd."

Cyngor ar gyfer gyrru beiciau modur mewn tywydd gwlyb

Gyrru yn y Glaw - Mae siŵr o fod yn deg dweud y byddwn ni'r beicwyr yng Nghymru wedi cael llawer o brofiadau personol o hyn!

Caiff tyniant ei leihau'n sylweddol yn y glaw; mae'n arbennig o bwysig nad yw teiars wedi'u niweidio, eu bod wedi'u pwmpio i'r pwysedd cywir a bod dyfnder y gwadn yn dda. Gyrrwch mor esmwyth â phosibl gan ddefnyddio'r breciau a'r sbardun yn ofalus ac yn gynyddol.

Gwisgwch ddillad glaw priodol, un neu ddau faint yn fwy na'r hyn rydych fel arfer yn ei wisgo, er mwyn iddynt ffitio dros eich Cyfarpar Diogelu Personol arferol. Dewiswch eich safle yn y lôn er mwyn osgoi llawer o ddŵr ar yr arwyneb; edrychwch am draciau sych a wnaed gan gerbydau o'ch blaen, gan fod y rhannau hyn yn rhoi gafael gwell i'ch teiars ar y lôn. Osgowch byllau lle bynnag y bo'n bosibl – gallant hyd yn oed fod yn cuddio ceudwll.

Defnyddiwch synnwyr cyffredin; arafwch yn y glaw a chadwch bellter dilyn estynedig diogel – o leiaf ddwbl y pellter rydych yn ei ganiatáu mewn amodau sych. Os nad oes modd eu hosgoi'n ddiogel, ewch dros fannau llithrig megis llinellau wedi'u paentio a gorchuddion tyllau archwilio mor syth â phosibl. Gallai patsyn enfys ar arwyneb y ffordd fod yn olew wedi'i gymysgu â dŵr glaw, felly bydd arsylwadau cynnar yn eich galluogi i osgoi'r perygl hwn.

Mae cydio'n dyn ar eich beic yn amharu ar eich rheolaeth ac yn golygu eich bod mewn mwy o berygl; ymlaciwch ac os bydd y tywydd wirioneddol yn mynd rhy wael, tynnwch i mewn.

Mae beicwyr yn anoddach fyth i'w gweld yn y glaw. Gwnewch eich hun mor weledol â phosibl; gall wisgo dillad glaw llachar fod yn opsiwn da. A chofiwch ddefnyddio'ch goleuadau. Cofiwch, pan fydd gweledd yn isel mae'n dod yn bwysicach fyth i yrru fel y gallwch stopio yn y pellter y gallwch weld ei fod yn glir.

Glaw neu hindda, dylai pob taith fod yn esmwyth, hamddenol a hyderus yn ddelfrydol. Edrychwch yn bell o'ch blaen a cheisiwch fwynhau'r profiad, hyd yn oed os byddwch braidd yn wlyb!